Barnardo's Compass Family Group Meeting Service

Believe in children

Barnardo's Cymru

Information for families



What is a Family Group Meeting (FGM)?

Every family is unique with its own culture, personalities and family history. All families come up against problems from time to time.

A FGM offers family members a chance to get together, to find out about what is happening in the family, and to discuss how to sort out any problems.

FGM's usually take place outside the home at a time and place to suit the people who want to attend. Refreshments are usually provided if you would like them.

What do we mean by family?

By family we mean anyone who cares about the child or young person. It includes close family, relatives living away and particular friends who are important to the family.

The child or young person will be invited along with any brothers and sisters. Perhaps a friend could come too.

How is the meeting arranged?

If you and your Social Worker agree that a FGM would be useful, your Social Worker will make a referral to Barnardo's Family Group Meeting Service. In Barnardo's, FGM coordinators are completely independent of the family and social services. Their role is to arrange the meeting and to make sure that everything and everyone you need is there.

Barnardo's believe that families are usually best able to make decisions about their children. This is because we think that nobody understands a family better than the people living in it.

Once the referral has been received, the coordinator will take you through the next steps:

Step 1 – Preparation for the meeting

If you are the parent/carer of the child/ young person for whom the meeting is being arranged, you will be contacted by a FGM coordinator within 7 days of the referral being received.

The coordinator will come out to speak to you and the young person about the FGM and discuss who you would like to invite.

It is important that everyone has a say at the FGM. The coordinator wants to make sure that all voices are heard. Sometimes a friend, or maybe an auntie or a neighbour is a good person to speak up for a child, or you may want an independent advocate to help you make your point. If family members are really unable to attend, they may choose to send a letter or tape instead.

The coordinator will contact everyone and make all the necessary arrangements for the FGM.

Step 2 – The meeting

There are three parts to the meeting:

a) Introductions and information sharing

The coordinator welcomes and introduces everyone, and explains what will happen. Next, your Social Worker will explain the concerns they have and ask the family to address them. Your Social Worker will also tell you about services, resources and support that may be available. The family can also ask questions.

b) Private family time

You and your family will be left alone to decide the best way forward for your child. You will need to:

- agree a plan
- decide who does what
- decide how you can check if the plan is working
- decide on who will keep in touch with the Social Worker about the progress of the plan.

The coordinator will be nearby if you need any more help or information.

c) Agreeing the plan

The coordinator and others come back into the meeting once you have agreed your plan. The plan will then be looked at to make sure that what is written down is clear and agreed. It will only be disagreed with if the plan is unlawful or it would seriously damage the child/young person.

For the plan to succeed, everyone needs to try their best to make it work.

The coordinator will ensure that all concerned have a copy of the plan within five working days of the FGM.

A date will be set for a review meeting where everyone comes together to discuss the progress and make any changes needed to the plan.

For additional copies of this leaflet, please contact the Family Group Meeting Service on: 01978 315130

Your Family Group Meeting Coordinator is:

Telephone:

If you have any further questions about the Family Group Meeting Service, please contact:

Compass Family Group Meeting Service
Bryn Hyfryd,
2 Grosvenor Road
Wrexham
LL11 1BU

01978 315130

compasspartnership@barnardos.org.uk

www.barnardos.org.uk

Believe in children

Barnardo's Cymru

Barnardo's Registered Charity Nos 216250 and SC037605
11470/CD/09

Barnardo's Gwasanaeth Cyfarfodydd Grŵp Teulu Compass

Credwch mewn plant

Barnardo's Cymru

Gwybodaeth i deuluoedd



Beth yw Cyfarfod Grŵp Teulu?

Mae pob teulu yn unigryw a chanddo ei ddiwylliant, ei bersonoliaethau a'i hanes ei hun. Daw pob teulu wyneb yn wyneb â phroblemau o bryd i'w gilydd.

Mae Cyfarfod Grŵp Teulu yn cynnig cyfle i aelodau teuluoedd ddod at ei gilydd, i wybod beth sy'n digwydd yn y teulu, ac i drafod sut mae datrys unrhyw broblemau.

Cynhelir Cyfarfodydd Grŵp Teulu fel arfer y tu allan i'r cartref ar amser ac mewn lle sy'n gyfleus i'r bobl sydd am fod yn bresennol. Bydd bwyd a diod ar gael fel arfer os hoffech chi eu cael.

Beth yw ystyr 'teulu' i ni?

Ystyr teulu i ni yw unrhyw un sy'n gofalu am y plentyn neu'r unigolyn ifanc. Mae'n cynnwys teulu agos, perthnasau sy'n byw oddi cartref a rhai ffrindiau sy'n bwysig i'r teulu.

Estynnir gwahoddiad i'r plentyn neu i'r unigolyn ifanc, yn ogystal ag i unrhyw frodyr a chwiorydd. Efallai gallai ffrind ddod hefyd.

Sut caiff y cyfarfod ei drefnu?

Os byddwch chi a'ch Gweithiwr Cymdeithasol yn cytuno y byddai Cyfarfod Grŵp Teulu yn ddefnyddiol, bydd eich Gweithiwr Cymdeithasol yn cyfeirio'r mater i Wasanaeth Cyfarfodydd Grŵp Teulu Barnardo's. Yn Barnardo's, mae cydlynwyr Cyfarfodydd Grŵp Teulu yn gwbl annibynnol ar y teulu a'r gwasanaethau cymdeithasol. Eu rôl yw trefnu'r Cyfarfod a gwneud yn siŵr bod pawb a phopeth y mae arnoch eu hangen yno.

Mae Barnardo's o'r gred mai teuluoedd sydd fel arfer yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau ynglŷn â'u plant. Mae hyn am nad oes neb sy'n all teulu cystal â'r bobl sy'n rhan ohono.

Ar ôl i'r mater gael ei gyfeirio, bydd y cydlynydd yn egluro'r camau nesaf i chi:

Cam 1 – Paratoi ar gyfer y cyfarfod

Os mai chi yw rhiant/gofalwr y plentyn/unigolyn ifanc y mae'r cyfarfod yn berthnasol iddo/iddi, bydd cydlynydd Cyfarfodydd Grŵp Teulu yn cysylltu â chi cyn pen saith niwrnod ar ôl i'r mater gael ei gyfeirio.

Bydd y cydlynydd yn dod i siarad â chi a'r unigolyn ifanc am y Cyfarfod ac i drafod pwy yr hoffech eu gwahodd.

Mae'n bwysig bod gan bawb lais yn y Cyfarfod. Bydd y cydlynydd am wneud yn siŵr y caiff pob llais ei glywed. Weithiau bydd ffrind, neu fodryb neu gymydog yn dda am siarad ar ran plentyn, neu efallai byddai'n well gennych gael eiriolwr annibynnol i'ch helpu i leisio'ch barn. Os na all rhai aelodau o'r teulu fod yn bresennol am reswm da, efallai byddant yn dewis anfon llythyr neu dâp.

Bydd y cydlynydd yn cysylltu â phawb ac yn gwneud yr holl drefniadau sy'n angenrheidiol ar gyfer y Cyfarfod.

Cam 2 – Y cyfarfod

Ceir tair rhan i'r cyfarfod:

a) Cyflwyniadau a rhannu gwybodaeth

Bydd y cydlynydd yn croesawu ac yn cyflwyno pawb, ac yna'n esbonio beth fydd yn digwydd. Wedyn, bydd eich Gweithiwr Cymdeithasol yn esbonio'r pryderon sydd ganddo/ganddi ac yn gofyn i'r teulu roi sylw iddynt. Bydd eich Gweithiwr Cymdeithasol hefyd yn dweud wrthych am y gwasanaethau, yr adnoddau a'r gefnogaeth a fydd o bosibl ar gael. Gall y teulu hefyd ofyn cwestiynau.

b) Amser preifat i'r teulu

Byddwch chi a'ch teulu'n cael amser ar eich pen eich hun i drafod y ffordd orau ymlaen i'ch plentyn. Bydd gofyn i chi:

- gytuno ar gynllun
- penderfynu pwy fydd yn gwneud beth
- penderfynu sut y gallwch weld a yw'r cynllun yn gweithio
- penderfynu pwy fydd yn cadw mewn cysylltiad â'r Gweithiwr Cymdeithasol ynglŷn â sut mae'r cynllun yn dod yn ei flaen.

Bydd y cydlynydd ar gael os bydd angen rhagor o gymorth neu wybodaeth arnoch.

c) Cytuno ar y cynllun

Bydd y cydlynydd ac aelodau eraill y cyfarfod yn dod yn ôl i'r cyfarfod ar ôl i chi gytuno ar eich cynllun. Yna, byddant yn edrych ar y cynllun i wneud yn siŵr bod yr hyn sydd wedi'i ysgrifennu yn glir a'u bod yn cytuno ag ef. Ni fyddant yn cytuno â'r cynllun os yw'n anghyfreithlon neu os byddai'n effeithio'n ddifrifol wael ar y plentyn/unigolyn ifanc.

Er mwyn i'r cynllun lwyddo, bydd yn rhaid i bawb wneud eu gorau glas i wneud iddo weithio.

Bydd y cydlynydd yn sicrhau bod gan bawb dan sylw gopi o'r cynllun cyn pen pum niwrnod gwaith ar ôl y Cyfarfod.

Caiff dyddiad ei bennu ar gyfer cyfarfod adolygu lle fydd pawb yn dod at ei gilydd i drafod cynnydd ac i wneud unrhyw newidiadau y mae angen eu gwneud i'r cynllun.

I gael copïau ychwanegol o'r daflen hon, mae croeso i chi gysylltu â'r

Gwasanaeth Cyfarfodydd Grŵp

Teulu ar: 01978 315130

Eich Cydlynydd Cynadleddau, Grŵp Teulu yw:

Rhif ffôn:

Os hoffech ofyn unrhyw gwestiynau am y Gwasanaeth Cyfarfodydd Grŵp Teulu, cysylltwch â:

Gwasanaeth Cyfarfodydd Grŵp Teulu
Compass
Bryn Hyfryd,
2 Ffordd Grosvenor
Wrecsam
LL11 1BU

01978 315130

compasspartnership@barnardos.org.uk

www.barnardos.org.uk

Credwch mewn plant
Barnardo's Cymru

Rhifau Cofrestru'r Elusen Barnardo's 216250 a SC037605
11470/CD/09